Seren am Swper

*Yn **Seren am Swper** byddwn yn herio dau deulu – gyda'r plant yn arwain y ffordd – i groesawi gwestai arbennig ar gyfer noson o wledda a ddiddanwch. Ond beth fydd y gwestai gwadd yn meddwl am y croeso ac, yn bwysicach fyth, y bwyd?!*

Un diwrnod fydd gan y teuluoedd i baratoi ar gyfer eu hymwelydd, seren o fyd adloniant neu chwaraeon a fydd yn arwr i blant y ddau deulu. Byddwn yn datgelu pwy fydd y gwestai yn y bore, ond ni fydd llawer o amser i gnoi cil, bydd yn rhaid i bopeth fod yn barod cyn y cnoc ar y drws am 7 yr hwyr.

Y plant fydd yn penderfynnu ar y fwydlen, os oes thema i'r noson a sut i ddiddanu'r gwestai, cyn llusgo'u rhieni ar frys i'r siopau. Yna, syth adre' i baratoi'r wledd a dadrolio'r carped coch!

Dros ddwy noson, bydd yr un gwestai yn ymweld â'r ddau deulu ac yna'n dewis pa noson oedd fwya' pleserus – am sbeis ychwanegol bydd y teuluoedd yn 'nabod ei gilydd. Y wobr i'r teulu fuddugol fydd pryd o fwyd ym mwyty gorau'r dre, tra bod y teulu sy'n colli yn gorfod golchi'r llestri i gyd!

Os oes ddiddordeb gennych chi cymryd ran yn y raglen newydd, cyffrous yma cysylltwch a Kate Griffiths ar 02920 550 579 neu kate.griffiths@boomerang.co.uk

Diolch yn fawr.